# EDC-12-00(p8)

Rhodri Morgan AC AS

Y Prif Ysgrifennydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd

Caerdydd

CF99 1NA

**Pwyllgor Datblygu Economaidd**

**Economic Development Committee**

Bae Caerdydd/ Cardiff Bay

Caerdydd / Cardiff

CF99 1NA

Gorffennaf 2000

Annwyl Rhodri

**LLEOLIAD SWYDDOGAETHAU MENTER Y CYNGHORAU HYFFORDDI A MENTER YN Y DYFODOL**

Fel y gwyddoch, bu'r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn trafod lleoliad swyddogaethau Menter y Cynghorau Hyfforddi a Menter yn y dyfodol yn y cyfarfod ar 22 Mehefin. Yr oedd y Pwyllgor eisoes wedi cynnal ymarfer ymgynghori helaeth ynghylch y materion hyn ym mis Chwefror. Serch hynny, gan na chafwyd unrhyw gonsensws clir o'r ymgynghoriad hwnnw, gofynnodd y Pwyllgor i gorff Cyswllt Busnes, drwy ymgynghori â'r Cynghorau Hyfforddi a Menter a Busnes Cymru, ystyried y mater ymhellach. Diben y drafodaeth ar 22 Mehefin oedd ystyried ymatebion Cyswllt Busnes, Ffederasiwn y Busnesau Bach, Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain ac Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr, a gwneud argymhellion i chi.

Mae'r Pwyllgor yn cynnig bod gweinyddu'r cynlluniau hyn yn cael ei drosglwyddo i Awdurdod Datblygu Cymru fel y gellir eu darparu, ar lefel ranbarthol, o dan fantell Cyswllt Busnes. Yn benodol:

- Dylid trosglwyddo staff y Cynghorau Hyfforddi a Menter sy'n gysylltiedig â'r rhaglenni (a phob ffynhonnell ariannol berthynol) ar hyn o bryd i swyddfeydd rhanbarthol Awdurdod Datblygu Cymru. Dylai'r Cynulliad roi sicrwydd ar delerau ac amodau cyflogaeth y rheiny yr effeithir arnynt gan y trosglwyddiad.
- Dylid cyfyngu ffynonellau ariannu rhaglenni ar gyfer rhanbarthau Awdurdod Datblygu Cymru.
- Dylai swyddfeydd rhanbarthol Awdurdod Datblygu Cymru bennu trefniadau (parhaus) ar gyfer ymgynghori â chonsortia rhanbarthol Cyswllt Busnes ynghylch gweinyddu a datblygu'r rhaglenni hyn ac yngln â'r trefniadau contractio arfaethedig

- Dylai Awdurdod Datblygu Cymru roi trefniadau ar waith, drwy ymgynghori â Chyswllt Busnes, ar gyfer monitro a gwerthuso ansawdd ac effeithiolrwydd y rhaglenni.
- Dylid cadw'r gwasanaethau ar gyfer busnesau newydd, mentrau unig fasnachwr, a'r gwasanaethau diagnostig ac ymgynghori fel un pecyn;
- Ni ddylid lleihau gwasanaethau wedi i drefniant atodol y Cynghorau Hyfforddi a Menter ddod i ben.
- Dylid trosglwyddo'r gyllideb sy'n gysylltiedig ag ochr fenter y Cynghorau Hyfforddi a Menter o'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd.

Mae'r Pwyllgor yn teimlo y dylai hyn osgoi unrhyw rannu neu ddyblygu pellach ac y byddai'n caniatáu cysondeb ac yn caniatáu i'r gwasanaethau gael eu darparu'n lleol. Serch hynny, mae'n bosibl y bydd angen ailystyried y gweithrediadau hyn yn sgil canlyniad yr Arolwg Cymorth a Datblygu Busnes.

Rwy'n gobeithio y bydd modd i chi ystyried yr argymhellion hyn wrth lunio casgliadau ar leoliad Swyddogaethau Menter y Cynghorau Hyfforddi a Menter yn y dyfodol ac edrychaf ymlaen at gael adroddiad ar y datblygiadau yn y Pwyllgor.

Yn gywir

**VAL FELD AC**

**Cadeirydd**

**Pwyllgor Datblygu Economaidd**